# Am dro Bangor Gwylltach

Darganfyddwch fyd natur a threftadaeth ym Mangor ar y llwybr cylch hyblyg yma, sydd wedi'i chynllunio i gysylltu llecynnau awyr agored lleol gyda chymunedau lleol.

## Llecynnau o ddiddordeb

1. **Porth Penrhyn -** Porthladd llechi hanesyddol.
2. **Llecyn gwylio adar -** Bywyd gwyllt golygfaol a gwylio adar
3. **Hen bont -** Tramffordd lechi hanesyddol.
4. **Maes G –** Y drydedd stad dai fwyaf yng Nghymru
5. **Mynydd Bangor -** Crib olygfaol gyda gwreiddiau hynafol.
6. **Twr y Cloc -** Man cyfarfod tirnod Fictoraidd hanesyddol
7. **Hanes Hirael -** Hen gymdogaeth forwrol.
8. **Bwa Gwesty -** Cartref hanesyddol y Brifysgol.

## Cyfarwyddiadau

### Prif lwybr cylch

1. Dechreuwch ym maes parcio Harbwr Penrhyn (LL57 4HN, yr harbwr tu ôl i chi) a cherdded i lawr Lôn Las Ogwen am 1.6km.
2. Trowch i'r dde dros y bont droed fechan wrth y fainc wedi'i cherfio, croesi afon Cegin, a dilyn y llwybr ar y chwith i fyny'r allt i Faesgeirchen.
3. Dilynwch y ffordd yn syth i fyny, wedyn ewch drwy'r giât bren a dilyn y llwybr coetir yn syth i fyny.
4. Wrth y tro i'r dde, ewch yn eich blaen i fyny'r llwybr creigiog (neu droi i'r dde am y ddolen fer hygyrch; ewch ymlaen i bin 5 ar y dde).
5. Dilynwch y llwybr creigiog i fyny'r allt, heibio'r llannerch wrth y cwrs golff, ac ymlaen yn syth.
6. Ewch heibio'r adeilad adfeiliedig ar y chwith i chi. Yn y fforch, trowch i'r dde ar y llwybr glaswellt tuag at y coed.
7. Dilynwch y llwybrau i gopa Mynydd Bangor am y man gwylio.
8. Ewch yn eich blaen i gyffordd y llwybr, troi i'r chwith i lawr llethr serth, a'i ddilyn rownd tro sydyn i'r dde.
9. Yn y fforch nesaf, trowch i'r chwith y tu ôl i'r tai bach ac ewch i lawr y grisiau.
10. Yn y gwaelod, trowch i'r dde, wedyn i'r chwith ar unwaith i lawr York Place i'r Stryd Fawr, a throwch i'r dde.
11. Dilynwch y Stryd Fawr am 850m. Wrth y darn o laswellt gyda choed pinwydd, trowch i'r dde i Ben y Bryn.
12. Ger yr hen bortico carreg, trowch i'r chwith i lawr y grisiau a chroesi Ffordd y Traeth (A5) tuag at y parc.
13. Trowch i'r dde i ddilyn yr A5 i fyny'r allt, trowch i'r chwith yn y gyffordd a dilyn y ffordd yn ôl i'r maes parcio.

### Llwybr amgen hygyrch

5. Dilynwch y llwybr yma drwy'r coetiroedd a thu ôl i'r tai am 660m, wedyn dal i'r chwith yn y fforch i aros yn y coed.
6. Ar ôl 300m, dilynwch y tro sydyn i'r dde nes cyrraedd Ffordd y Castell a throi i'r chwith. Ewch heibio'r cae chwarae, troi i'r chwith i fyny Ffordd Tan y Bryn, wedyn dilyn y llwybr troed ar y chwith i chi.
7. Dilynwch y llwybr troed yma at dro i'r dde, wedyn cymryd y tro cyntaf i'r chwith i fyny i'r ffordd nesaf.
8. Ym Mhen y Bryn, trowch i'r dde a'i ddilyn i lawr i'r portico carreg. Trowch i'r chwith yno ac ewch yr holl ffordd i lawr i'r Stryd Fawr.
9. Trowch i'r dde i'r Stryd Fawr, wedyn troi i'r dde i Ffordd y Traeth (A5). Dilynwch yr A5 i fyny'r allt, troi i'r chwith yn y gyffordd, a dilyn y ffordd yn ôl i'r maes parcio.

**Dilywch yr AllTrails Llwybr dan**
Prif lwybr cylch
Llwybr amgen hygyrch

© YNGC | Rhif elusen gofrestredig: 230772 | Ffotograffau: GB NNSS, Lisa Toth, Philip Precey | northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/bangorgwylltach

## Bywyd gwyllt ar y llwybr

### Crëyr bach
*Egretta garzetta*

Mae pwll Cegin yn llecyn perffaith i'r crëyr bach, sydd â choesau du iawn a thraed melyn llachar. Gallwch ei weld yn nythu'n uchel yn y coed.



### Llygad Ebrill
*Ficaria verna*

Chwiliwch am lygad Ebrill melyn euraidd sy'n leinio'r ymylon. Mae gan y perthynas brodorol yma i'r blodyn menyn ddail sgleiniog, siâp calon a phetalau adlewyrchol.



### Blodyn y gwynt
*Anemone nemorosa*

Yn y gwanwyn, gall y coetir fod wedi'i garpedu gyda blodau gwyn. Maen nhw'n ymledu'n anhygoel o araf, dim ond 1.8m y ganrif; mae grwpiau mawr yn arwydd o goetir hynafol.



### Neidr ddefaid
*Anguis fragilis*


Er ei bod yn debyg i neidr, madfall ddiniwed heb goesau ydi hi mewn gwirionedd, sy'n gallu blincio, yn wahanol i nadroedd.



## Allwedd y Map

- **Prif lwybr cylch:** Hyd: 4.4km
- **Llwybr amgen hygyrch:** Hyd: 1.5km
- **Tir anodd:** Hyd: 1.11km
- Coetir
- Safleoedd bysiau
- Llecynnau o ddiddordeb
- Cyfarwyddiadau
- Dechrau'r llwybr
- Diwedd y llwybr

Cliciwch ar y llecynnau o ddiddordeb i'w harchwilio'n rhithwir a gweld ydi'r llwybr yn hygyrch i chi!




Mae gan Afon Cegin lawer o rywogaethau ymledol, fel y ffromlys chwarennog, ar hyd ei dyfrffyrdd!

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND